

# Colofn A

## TECHNOLEG CERDD BTEC LEFEL 3

### **BTEC Lefel 3 Tystysgrif estynedig mewn Technoleg Cerddoriaeth (Peirianedd Sain)**

Mae'r BTEC Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth yn gwrs dwy flynedd bydd yn rhoi i'r myfyrwyr sgiliau ymarferol creiddiol ar gyfer gyrfa neu astudiaethau pellach yn y maes cyffrous hwn. Mae yna 5 uned a astudir dros y dwy flynedd, 3 yn ystod y flwyddyn gyntaf a 2 mwy estynedig yn ystod yr ail flwyddyn. Mae hyn yn arwain at y cymhwyster tystysgrif estynedig Lefel 3 (sy'n cyfateb i lefel A). Mae'r cwrs i gyd yn cael eu asesu ar sail cymysgedd o aseiniadau ysgrifennedig a ymarferol. Nid oes yna arholiad ar ddiwedd y cwrs ond yn hytrach mae yna un asesiad estynedig sy'n cael eu gwblhau o dan amodau arholiad yn yr ystafell ddsbarth.

Mae ystod eang o offer cerddorol proffesiynol ar gael at ddefnydd fyfyrwyr sy'n astudio'r pwnc, gan gynnwys stiwdio recordio gydag ystafell fyw ag ystafell reoli, offer recordio digidol, prosesyddion sain, microffonau, syntheseiddwyr, allweddellau, pianos acwstig, gitarau drydanol ac acwstig, drymiau electronig ac acwstig a pheiriannau drymiau. Mae nifer o offerynnau ychwanegol ar gael i'r myfyrwyr yn ogystal. Byddwch hefyd yn defnyddio cyfrifiaduron cerddorol arbenigol a chael profiad o feddalwedd cerddorol megis *Reason*, *Cubase*, *Sibelius* a *Pro Tools*.

Nid yw'r gallu i chwarae offeryn cerddorol yn hanfodol i'r cwrs, er y bydd sgiliau allweddell/piano yn sicr o fantais yn enwedig yn yr yned dliyniannu. Yn bwysig hefyd yw datblygu clust cerddorol, y gallu i ddefnyddio cyfrifiadur yn hyderus, a'r parodrwydd i arbrofi gyda sgiliau a thechnegau cerddorol newydd er mwyn creu a thrin cerddoriaeth o bob math.

### **Rhaglen Astudio**

#### **Blwyddyn 1:**

- **Uned 1: Technegau Sain Byw:** deall gofynion offer sain byw; gosod systemau sain i fyny ynghyd a recordio perfformiad byw.
- **Uned 14: Acwsteg i Gerddorion:** ffiseg sain; mecanwaith clyw dynol; nodweddion sain gofodau.
- **Uned 18: Gweithio a datblygu fel tîm i gyflawni cynnyrch cerddorol:** datblygu a cynrychu darn gwreiddiol o gerddoriaeth.

#### **Blwyddyn 2:**

- **Uned 2: Technegau Cynhyrchu Cerddoriaeth:** deall offer recordio sain; paratoi ar gyfer sesiwn recordio; technegau recordio a chymysgu amldrac.
- **Uned 6: Systemau a Thechnegau Dilyniannu (*Sequencing*):** gosod i fyny cyfrifiadur a chaledwedd MIDI; sgiliau dilyniannu MIDI ac sain.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr R Lake ([rl@ysgolplasmawr.cymru](mailto:rl@ysgolplasmawr.cymru)).

## PERFFORMIO BTEC LEFEL 3

### BTEC Lefel 3 Tystysgrif estynedig mewn Perfformio

Mae'r BTEC Lefel 3 yma yn gwrs dwy flynedd bydd yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr datblygu eu sgiliau perfformio ar gyfer gyrfa neu astudiaethau pellach yn y maes hwn. Mae'n dilyn strwythur tebyg a'r cwrs technoleg cerddoriaeth er pan yn dilyn y cwrs perfformio mae yna ddau asesiad estynedig ar ddiwedd yr ail fwyddyn sy'n cael eu gwblhau o dan amodau arholiad yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r gallu i chwarae offeryn neu canu yn hanfodol ar gyfer y cwrs yma. Mae yna gyfle i ddatblygu mwy nag un offeryn petai'r myfyriwr yn dymuno. Disgwylir i'r myfyriwr ymarfer yn annibynnol yn reolaidd tu allan i oriau'r wers er mwyn llwyddo yn y cwrs yma.

### Rhaglen Astudio

#### Blwyddyn 1:

- **Uned 1: Theory a harmoni cerddorol:** Mae'r uned hwn yn rhoi cyfle i'r disgybl gwella eu dealltwriaeth o harmoni a theori sylfaenol cerddorol
- **Uned 6: Perfformio unawd:** Mae'r uned hwn yn galluogi i'r disgybl datblygu eu sgiliau perfformio ar offeryn penodol neu amryw o offerynnau
- **Uned 4: Cyfansoddi cerddoriaeth:** Cyfle i ddatblygu sgiliau cyfansoddi drwy greu portffolio o gerddoriaeth o amryw o arddulliau

#### Blwyddyn 2:

- **Uned 2: Datblygiad proffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth:** Cyfle i ddatblygu eich sgiliau cyffredinol cerddorol.
- **Uned 3: Ensemble cerddorol:** fel rhan o ensemble mae'n rhaid i chi ymarfer a datblygu repertoire ar gyfer perfformiad

## FFASIWN & TECSTILAU L3

### Cyflwyniad/Amcanion y Cwrs

- Cwrs sy'n galluogi ymgeiswyr i cael profiad trylwyr a chynhwysfawr o Decstilau, Celf, Chrefft a Dylunio. Bydd eu gallu i fod yn greadigol a dychmygus ac i gyfathrebu'n weledol a gofodol yn cael ei herio a'i ymestyn.
- Ardaloedd y gellir astudio :-
  1. Ffasiwn,
  2. Gwisg,
  3. Printio dillad a ffabrigau,
  4. Cynllunio Mewnol,
  5. Adeiladwaith Tecstilau (gwau, gwehyddu, brodwaith, gwaith gleiniau neu cyfuno'r technegau hyn i haddurno ffabrigau,
  6. Cyfwisgoedd
- Nid oes rhaid bod y disgybl wedi astudio Tecstilau i safon TGAU, ond mae'r gallu i gynhyrchu brasluniau arsylwadol i safon uchel a rhywfaint o sgil defnyddio'r peiriant gwnio yn hanfodol.
- Mae'r UG yn cynrychioli'r flwyddyn gyntaf o gymhwyster Safon Uwch dwy flynedd ond gellir astudio ar wahân

### UG – Uned 1

#### YMHOLIADAU Creadigol Personol – Asesiad Diarholiad

##### **(40% o'r cymhwyster – 160 marc)**

Mae'r Ymholiad Creadigol Personol yn cynnwys portffolio, estynedig a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

- Asesir hyn fel cyfanwaith gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwir ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.

### U2 Uned 2

## **Ymchwiliad Personol – Asesiad Diarholiad**

**(36% o'r cymhwyster - 160 marc)**

Yn cynnwys **dwy** ran gyfansoddol integredig:

1. Prif portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd â arwyddocâd personol.
2. Efen ysgrifennu estynedig o leiafswm o 1000 gair. Gallai gynnwys delweddau o thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg â gwaith ymarferol a damcaniaethol gan ddefnyddio geirfa weithiol a themau arbenigol priodol.

Asesir y gwaith ymarferol/damcaniaethol a'r elfen ysgrifenedig gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.

- Bydd y dysgwr a'i athrawon yn penderfynu ar themâu unedau 1 a 2 a'r gwaith yn cael ei asesu gan yr athrawon a'i safoni'n allanol.

## **U2 Uned 3**

### **Aseiniad wedi'i osod yn allanol – Asasiad Arholiad**

**(24% o'r cymhwyster 100marc)**

Yn cynnwys **dwy** ran:

#### **Rhan 1: Cyfnod gwaith paratoi**

- Rhyddheir y deunydd ar gyfer yr aseiniad a osodwyd yn allanol o 1 Chwefror (yn ail flwyddyn y cwrs) a byddant yn cynnwys cyfres o ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig.
- Bydd un o'r ysgogiadau yn cael ei ddewis gan y dysgwr a bydd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn. Bydd hyn wedyn yn mynnu ymateb personol.
- Mae'r ymatebion hyn yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod gwaith paratoi. Bydd yr ymatebion ar ffurf gwaith paratoi/astudiaeth cefnogol yn feiriadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wirwddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15 awr.

#### **Rhan 2: Cyfrod o waith dwys a manwl 15 awr**

- Rhaid cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r dysgwyr o'r gwaith paratoi yn ystod y 15 awr hyn a rhaid iddyn nhw ddangos y cysylltiad rhwng eu cynlluniau a'r canlyniad/au a gafwyd.
- Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau dan orchwyliaeth.

Asesir y gwaith paratoi a'r gwaith dwys a manwl gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r amcanion asesu.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu. CBAC fydd yn gosod yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, sy'n cael ei asesu gan yr athrawon a'i safoni'n allanol.

Mae'r cwrs yma yn addas ond nid o reidrwydd, ar gyfer disgyblion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y byd/diwydiant Tecstil neu faes sy'n gysylltiedig a hynny. Rydym yn annog ein disgyblion i wneud ceisiadau yn uniongyrchol ar gyfer cyrsiau gradd.

Cynigir sialens creadigol a thechnolegol i ddisgyblion lle bydd disgwyl iddynt weithio yn gyson gartref ac o fewn ystafelloedd yr adran er mwyn datblygu sgiliau a syniadau. Mae llawer o fwynhad a boddhad i'w cael o'r gwaith ymarferol a chreadigol yma gydag arddangosfa o uchafbwyntiau e'u hymdrechion yn cael ei gynnal yn yr ysgol bob blwyddyn.

## **Arall**

- Annogir myfyrwyr i ymweld ag orielau, arddangosfeydd a'u hardal am ysbrydoliaeth
- Cyrsiau Tecstilau a Dylunio yn 'Llanover Hall' a 'Chreffft yn y Bae'
- Ymweliadau â Oriellau â Amgueddfeydd lleol ac ar y cyfandir.



## DAEARYDDIAETH L3

Mae themâu daearyddol yn aml yn ffurfio penawdau newyddion y dydd – boed hyn oherwydd y drychineb naturiol ddiweddaraf i effeithio ar y blaned; problemau a gwyd o ganlyniad i batrymau mudo; y frwydr barhaol i sicrhau cydbwysedd rhwng poblogaeth ac adnoddau neu lu o themâu eraill.

Mae'r cwrs UG/ U2 Daearyddiaeth yn ymdrin a'r themâu yma mewn ffordd sydd yn datblygu'r sgiliau sydd yn gwneud daearyddwyr yn gyffaeliad i amryw weithle. Drwy astudio Daearyddiaeth ehangir ar orwelion y disgyblion ac maent yn dysgu am wahanol safbwyntiau ledled y byd. Wrth ddilyn y cwrs gobeithiwn fod y disgyblion yn dod i ddeall natur ddeinamig Daearyddiaeth ac felly natur ddeinamig y byd o'n cwrpas – ac felly gwerthfawrogi'r problemau sydd yn wynebu dynol ryw yn yr unfed ganrif ar hugain.

### **Uwch Gyfrannol (AS)**

**Modiwl 1:** Rhennir yr uned yma i ddwy ran.

- (i) Peryglon tectonig
- (ii) Tirfwdedau sy'n newid.

**Modiwl 2:** Unwaith eto rhennir yr uned yma i ddwy ran.

- (i) Lleoedd sydd yn newid.
- (ii) Bydd y papur yma hefyd yn profi sgiliau ymarferol daearyddol y disgyblion

### **Safon Uwch (A2)**

**Modiwl 3:** Mae yna dair rhan i'r uned yma sef

- (i) Systemau byd eang - sylw at y system dwr a carbon.
- (ii) Rheolaeth byd eang – sylw i gefnforoedd a phatrymau mudo.
- (iii) Heriau yr 21ain Ganrif

**Modiwl 4:** Themau cyfoes mewn daearyddiaeth Egni a China

**Modiwl 5:** Yn yr uned olaf yma mae disgwyl i'r disgyblion gwblhau ymholiad unigol 3000-4000 o eiriau o hyd.

### **Trefniadau Asesu**

Yn ystod blwyddyn 12 bydd y disgyblion yn sefyll arholiad modiwl 1 a 2 ac ym mlwyddyn 13 yn ogystal a chwblhau eu ymholiad unigol bydd y disgyblion yn sefyll arholiad modiwl

3 a 4. Bydd natur y cwestiynau yn y papurau arholiad ym amrywio o gwestiynau byr ateb i ddata i draethodau strwythuredig.

### **Arall**

Y prif nodweddion sydd angen ar rywun sydd am ddilyn cwrs daearyddiaeth yw parodrwydd i weithio a hefyd diddordeb yn y pwnc. Mae'r gallu i gyfathrebu yn glir hefyd yn bwysig.



## SBAENEG L3

### Cyflwyniad/Amcanion y Cwrs

Mae'r cwrs Sbaeneg Uwch ac Uwch Gyfrannol yn gyrsiau heriol fydd yn galluogi myfyrwyr i gyfathrebu'n hyderus yn yr iaith dramor. Mae'n gwrs cyflawn yn ei hun sydd hefyd yn darparu sail addas ar gyfer astudiaeth bellach. Datblygir ymwybyddiaeth y myfyrwyr o themau Ewropeaidd yn ogystal ag agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol y pynciau a astudir.

### **Uwch Gyfrannol (AS)**

Uned 1: Arholiad Llafar 12% o Safon Uwch

Dadl a thrafodaeth yn seiliedig ar themâu.

Uned 2: Gwrando, Darllen a Chyfieithu 15% o Safon Uwch

Arholiad Gwrando a Deall, Darllen a Deall a chyfieithiad o'r Sbaeneg.

Uned 3: Ymateb ysgrifenedig 13% o Safon Uwch

Tasgau traethawd yn seiliedig ar ffilm "Diarios de Motocicleta"-Walter Salles

### **Safon Uwch (A2)**

Uned 4: Arholiad Llafar 18% o Safon Uwch

Chyflwyniad a thrafodaeth ar brosiect ymchwil annibynnol.

Uned 5: Gwrando, Darllen a Chyfieithu 23% o Safon Uwch

Arholiad Gwrando a Deall, Darllen a Deall, cyfieithiad i'r Sbaeneg

Uned 6: Ymateb ysgrifenedig 19% o Safon Uwch

Tasgau traethawd yn seiliedig ar y llyfr "La Casa de Bernarda Alba"-Lorca

### **Trefniadau Asesu/Sgiliau Allweddol**

Mae sgiliau allweddol yn rhan annatod o'r cwrs UG. Yn benodol gall ymgeiswyr ddangos eu gallu i gyflawni agweddau o bob un o'r sgiliau Allweddol canlynol, fel rheol ar lefel 3:

- Technoleg Gwybodaeth,

- Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Personol,
- Gweithio gydag eraill.

Dyma'r themâu â astudir, gan gyfeirio at Sbaen a gwledydd lle y siaredir y iaith.

### **Uwch Gyfrannol**

Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Sbaeneg ei hiaith. Strwythur y teulu, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch/perthnasoedd. Tueddiadau, problemau a hunaniaeth bersonol ymysg yr ifanc. Cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth.

Deall y byd Sbaeneg. Diwylliant a threftadaeth rhanbarthol yn Sbaen ac mewn gwledydd a chymunedau Sbaeneg eu hiaith. Sbaen a gwledydd America Ladin yng nghyd-destun Ewrop. Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Sbaeneg ei iaith.

### **Safon Uwch**

Amrywiaeth a gwahaniaeth. Mudo ac integreiddio. Hunaniaeth ddiwylliannol ac ymyleiddio. Cyfoethogi diwylliannol a dathlu gwahaniaeth. Gwahaniaethu ac amrywiaeth

Y Ddwy Sbaen: 1936 ymlaen. El franquismo – tarddiad, datblygiad a chanlyniadau. Sbaen wedi'r Rhyfel Cartref – ôl-ffeithiau hanesyddol a gwleidyddol. Rhyfel Cartref Sbaen a'r newid i ddemocratiaeth (a gynrychiolir yn y celfyddydau, sinema, llenyddiaeth, celfyddyd a ffotograffiaeth). Sbaen – dod i delerau â'r gorffennol? "Recuperación de la memoria histórica"

## **BUSNES BTEC L3**

**Mae'r Dystysgrif (3 uned) yn gyfwerth â chymhwyster Uwch Gyfrannol.  
Mae'r Diploma Atodol (6 uned) yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch.**

Mae'r Cwrs L3 Busnes yn seiliedig ar ddefnyddio astudiaethau achos cyfredol ac yn pwysleisio'r angen i ddisgyblion i dddarllen yn eang er mwyn gallu gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgareddau a phenderfyniadau busnes.

### **Yr Amgylchedd Fusnes**

- Deall y gwahanol fathau o weithgarwch a pherchnogaeth busnes e.e. unig fasnachwr, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig, sector cyhoeddus, cyfundrefnau nad elw yw'r nod.
- Y berthynas rhwng nodau ac amcanion cyfundrefnol a'r math o gyfundrefn.
- Astudiaeth o rôl rhanddeiliaid.
- Dealltwriaeth o effaith ffactorau allanol a'r amgylchedd fusnes ar gyfundrefnau unigol e.e. dylanwadau economaidd, cymdeithasol, cyfreithiol.

### **Ymchwilio i Adnoddau Busnes**

- Deall sut y rheolir adnoddau dynol e.e. recriwtio a chyflogi.
- Deall pwrpas rheoli adnoddau ffisegol a thechnolegol gyda phwyslais mawr ar y defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.
- Dealltwriaeth o ffynonellau cyllid i wahanol fusnesau e.e. mewnol ac allanol.
- Y gallu i ddadansoddi dogfennau ariannol e.e. cyfri elw a cholled, y fantolen, llif ariannol.

### **Cyflwyniad i Farchnata**

- Deall prif egwyddorion marchnata.
- Gwybodaeth am ddulliau a phwrpas ymchwil marchnata e.e. ymchwil ansoddol a meintiol, primaidd ac eilradd.
- Deall sut y defnyddir gwybodaeth marchnata gan gyfundrefnau.
- Dulliau a ddefnyddir i gynyddu galw am gynnyrch e.e. y gymysgfa farchnata (pris, y cynnyrch, hysbysebu a hyrwyddo, lleoliad a dosbarthu).

## Pobl, Cyfathrebu a Gwybodaeth Effeithiol

- Gwerthusiad o wahanol ddulliau o Gyfathrebu gan enghreifftiau ymarferol yn seiliedig ar ddiwyddiad neu fusnes.
- Dealltwriaeth o wahanol fathau o wybodaeth.
- Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol
- Aseiad o Sytem Rheoli Gwybodaeth cyfundrefn gan gynnwys ystyriaeth o ofynion cyfreithiol a moesegol.



## Trefnu Digwyddiad Busnes

- Cyfle i ddisgyblion ennyn profiad ymarferol o gynllunio a chynnal digwyddiad. Rhaid i'r digwyddiad ganiatáu cynllunio ar raddfa gymharol o fawr, gyda chyfleodd i drefnu gydag asiantaethau allanol, cynnal digwyddiad ar gyfer gynulleidfa benodol, a gwerthuso'r trefniadau a digwyddiad.



## Cymhelliant a Rheoli Perfformiad

- Astudiaeth o egwyddorion a theorïau cymhelliant a dadansoddi eu defnydd ymarferol o fewn cyfundrefnau
- Ymchwiliad i ddulliau o reoli a mesur perfformiad gweithwyr o fewn cyfundrefn.

## **Busnes Uwch Gyfrannol & Uwch**

Dyma gwrs a gyflwynwyd yn gyntaf ym 2015 a bydd yn ran o gwricwlwm dysgu Ysgol Plasmawr am y tro cyntaf o Fedi 2018 ymlaen.

Am fwy o fanylion, mae'r manyleb llawn ar gael ar wefan CBAC.

# TAG UG a SAFON UWCH BUSNES (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESIAD

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

### UG (2 uned)

<b>UG Uned 1</b> Cyfleoedd Busnes Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud 15% o'r cymhwyster	60 marc
Cwestiynau atebion byr a chwestiynau strwythuredig. Cyfleoedd busnes, cychwyn busnesau, SMEs a mathau eraill o sefydliadau busnes a'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt.	
<b>UG Uned 2</b> Swyddogaethau Busnes Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 25% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau ymateb i ddata. Yn cwmpasu'r holl gynnwys UG.	

### Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned arall)

<b>U2 Uned 3</b> Dadansoddi Busnes a Strategaeth Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud 30% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau ymateb i ddata a chwestiynau strwythuredig. Strategaeth fusnes a thechnegau dadansoddol a ddefnyddir yn y broses gwneud penderfyniadau busnes.	
<b>U2 Uned 4</b> Busnes mewn Byd sy'n Newid Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud 30% o'r cymhwyster	80 marc
Astudiaeth achos ac un traethawd o ddewis o dri. Yn cwmpasu'r holl gynnwys Safon Uwch.	

## SAESNEG L3

Our students have chosen English Literature because they like to read, write and discuss. We follow the new WJEC specification, offered from September 2015. The subject is demanding but enjoyable, and develops students' analytical, creative and communication skills. It is also cross-curricular, in that it requires an appreciation of the social and historical context of texts, and an understanding of contemporary ideas and critical views. It can also be pursued as a balancing subject for other A level combinations.

### **Advanced Subsidiary (AS)**

#### ***Unit 1: Written examination (closed-book) – Prose and Drama (20%)***

Section A: Extract and essay work on a pre-1900 novel (Bronte)

Section B: One essay question on a play (Doctor Faustus)

#### ***Unit 2: Written examination (open-book) - Post-1900 Poetry (20%)***

Section A: Close reading of one poem, taken from studied collections by two poets (Heaney and Sheers)

Section B: Comparative work on the two studied poets

### **Advanced Level (A2)**

#### ***Unit 3: Written examination (closed-book) - Poetry Pre-1900 (20%)***

Section A: Poetry pre-1900 (Donne)

Section B: Unseen poetry comparison

#### ***Unit 4: Written examination (closed-book) - Shakespeare (20%)***

Section A: Extract work on the studied play (Hamlet)

Section B: An essay question

#### ***Unit 5: Non-examination assessment – Prose Study (20%)***

A comparative 2500-3500 study of two prose texts (one pre and one post-2000). Flexible task setting according to individual students' interests.

## FFISEG L3

### Cyflwyniad/Amcanion y Cwrs

Mae astudio'r Safon Uwch Ffiseg hon yn annog dysgwyr i:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o wahanol rannau'r pwnc a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w gilydd
- datblygu a dangos gwerthfawrogiad dwys o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dulliau gwyddonol
- datblygu gallu a hyder mewn amrywiaeth o sgiliau ymarferol, mathemategol a datrys problemau
- datblygu eu diddordeb a'u brwdfrydedd am y pwnc, gan gynnwys datblygu diddordeb i gwblhau astudiaeth bellach ac i ddilyn gyrfa yn y pwnc
- deall sut mae'r gymdeithas yn gwneud penderfyniadau am faterion gwyddonol a sut mae'r gwyddorau'n cyfrannu at lwyddiant yr economi a'r gymdeithas.

### **UG UNED 1 MUDIANT, EJNI A MATER**

Mae'r uned hon yn cwmpasu'r testunau canlynol:

1. Ffiseg sylfaenol
2. Cinemateg
3. Dynameg
4. Cysyniadau egni
5. Solidau dan ddiriant
6. Defnyddio pelydriad i ymchwilio i sêr
7. Gronynnau ac adeiledd niwclear

**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud  
20% o'r cymhwyster**

### **UG UNED 2 TRYDAN a GOLAU**

Mae'r uned hon yn cwmpasu'r testunau canlynol:

1. Dargludiad trydan
2. Gwrthiant
3. Cylchedau C.U.
4. Natur tonnau
5. Priodweddau tonnau
6. Plygiant golau

7. Ffotonau
8. Laserau

**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**  
**20% o'r cymhwyster**

**Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 3 uned bellach)**

## **U2 UNED 3**

### **OSGILIADAU a NIWCLYSAU**

Mae'r uned hon yn cwmpasu'r testunau canlynol:

1. Mudiant cylchol
2. Dirgryniadau
3. Damcaniaeth ginetig
4. Ffiseg thermol
5. Dadfeiliad niwclear
6. Egni niwclear

**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud**  
**25% o'r cymhwyster**

## **U2 UNED 4**

### **MEYSYDD ac OPSIYNAU**

Mae'r uned hon yn cwmpasu'r testunau canlynol:

1. Cynhwysiant
  2. Meysydd grym electrostatig a meysydd disgyrchiant
  3. Orbitau a'r bydysawd ehangach
  4. Meysydd magnetig
  5. Anwythiad electromagnetig
- + testun opsiwn.

Rydyn ni'n astudio'r opsiwn 'Ceryntau eiledol'.

**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**  
**25% o'r cymhwyster**

## **U2 UNED 5**

### **ARHOLIAD YMARFEROL**

Mae'r uned hon yn cynnig y cyfle i'r dysgwyr ddangos eu gallu i gynnal ymchwiliad ac i ddadansoddi a gwerthuso data arbrofi. Arholiad unigol fydd hwn, dan amodau dan reolaeth. Mae dwy dasg yn rhan o'r arholiad ymarferol.

- Tasg Arbrofi (25 marc)
- Tasg Dadansoddi Ymarferol (25 marc)

**10% o'r cymhwyster**



Arholir Unedau 1 a 2 yn ystod yr haf ym mlwyddyn 12.

Arholir unedau 3 a 4 yn ystod yr haf ym mlwyddyn 13.

Arholir uned 5 yn ystod mis Ebrill, blwyddyn 13.

### **Arall**

Bydd disgwyl fod disgybl wedi cael TGAU da mewn Gwyddoniaeth a

Gwyddoniaeth Ychwanegol er mwyn bod yn llwyddianus yn y cyrsiau yma.

Mae sgiliau mathemateg da yn bwysig ar gyfer astudio Ffiseg, felly byddai gradd TGAU da mewn Mathemateg yn gymhwyster angenrheidiol

